



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

South Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

Polisi Gorfodi Diogelwch Tân Busnes Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achrub
De Cymru



Gwasanaeth Tân ac Achrub
Fire and Rescue Service

CYNNWYS

1	Cyflwyniad	4
2	Egwyddorion Gorfodi	4
2.1	Cymesuredd.....	4
2.2	Targedu.....	4
2.3	Cysondeb	5
2.4	Trylowder.....	5
2.5	Atebolrwydd	5
2.6	Cymwynasgarwch.....	5
3	Safonau Gwasanaeth	6
4	Deddf Hawliau Dynol 1998	6
5	Deddf Diogelu Data 1988	6
6	Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron	6
6.1	Prawf Tystiolaethol.....	7
6.2	Prawf Budd y Cyhoedd	7
7	Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctiynau 2008	7
8	Cynnal Ymchwiliadau	7
9	Camau Gorfodi (Ar gael i Awdurdodau mewn perthynas â Thoriadau Troseddol)	7
9.1	Cyngor, canllawiau a chymorth gyda chydymffurfio.....	8
9.2	Cynlluniau gweithredu a gytunir	8
9.3	Hysbysiadau statudol (cyfreithiol).....	8
9.4	Cofrestr gyhoeddus o hysbysiadau.....	9
9.5	Rhybuddiad syml	9
9.6	Erlyn.....	9
10	Dogfennau perthnasol	9
11	Arolygu Polisi	10



1 Cyflwyniad

Mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru (“y Gwasanaethau”) yn gorfodi deddfwriaeth gyffredinol diogelwch tân ar ran y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru (“yr Awdurdodau”). Mae’r deddfwriaeth y mae’r Awdurdodau yn ei gorfodi yn cynnwys:

- [Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio \(Diogelwch Tân\) 2005](#),
- [Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 \(rhagofalon tân cyffredinol ac eithrio risgiau proses\)](#),
- [Rheoliadau Adeiladu \(Dylunio a Rheoli\) 2007](#) (safle a feddiannir).

Mae’r Datganiad Polisi Gorfodi hwn yn seiliedig ar egwyddorion ‘Gwell Rheoleiddio’ a gynhwysir yng [Nghod y Rheolyddion 2014](#) ac yn pennu’r dull y bydd yr Awdurdodau yn ei ddefnyddio i orfodi’r deddfwriaeth. Fe’i defnyddir ar y cyd â chanllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Senedd; Cymunedau a Llywodraeth Leol; [yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau](#), [y Swyddfa Rheoliadau Gwell](#) ac adrannau perthnasol eraill y llywodraeth.

2 Egwyddorion Gorfodi

2.1 Cymesuredd

Bydd y Gwasanaethau yn lleihau costau cydymffurfio i fusnesau trwy sicrhau bod unrhyw gam sydd ei angen arnom yn gymesur â’r risgiau. Cyn belled ag y mae’r gyfraith yn caniatáu, byddwn yn cymryd i ystyriaeth amgylchiadau’r achos ac agwedd y gweithredwr wrth ystyried cymryd camau.

Byddwn yn cymryd gofal arbennig i weithio gyda busnesau bach a mudiadau gwirfoddol a chymunedol fel eu bod yn medru cyflawni eu hymrwymadau cyfreithiol heb gost ddiangen, lle’n ymarferol.

Mae Cod y Rheolyddion 2014, adran 1.1. yn nodi:

“Regulators should choose proportionate approaches to those they regulate, based on relevant factors including, for example, business size and capacity.”

2.2 Targeddu

Mae targeddu yn golygu sicrhau bod ymdrech reoleiddiol yn cael ei chyfeirio’n bennaf tuag at y sawl y mae eu gweithgareddau yn achosi lefelau uwch o risg i’r cyhoedd a/neu weithwyr (“personau perthnasol”). At hyn, bydd y Gwasanaethau yn parhau i archwilio safleoedd ar ôl digwyddiad ac mewn ymateb i gwynion.

Bydd yr Awdurdodau yn anelu at wneud yn siŵr, trwy dargeddu, bod cyfeiriad ymdrech reoleiddiol yn cymryd lefel y risg i ystyriaeth. Bydd camau yn cael eu canolbwyntio yn bennaf ar y sawl sy’n uniongyrchol gyfrifol am y risg a phwy sydd yn y sefyllfa orau i’w rheoli. Mae gan yr Awdurdodau systemau ar gyfer blaenoriaethu ymdrech reoleiddiol. Mae’r rhain yn cynnwys rhaglen archwilio seiliedig ar risg a chynlluniau lleol i adnabod safleoedd risg uchel. Asesu risg, defnyddio methodoleg a data a ddarperir gan y Llywodraeth, ynghyd â data, deallusrwydd a gwybodaeth leol yw sylfaen dull yr Awdurdod o ymgymryd â gweithgareddau rheoleiddio.

Mae Cod y Rheolyddion 2014 adran 3.2 yn nodi:

“Regulators should consider risk at every stage of their decision-making processes, including choosing the most appropriate type of intervention or way of working with those regulated; targeting checks on compliance; and when taking enforcement action.”



2.3 Cysondeb

Nid yw cysondeb dull yn golygu unffurdedd. Mae'n golygu cymryd agwedd debyg dan amgylchiadau tebyg i gyflawni dibenion tebyg.

Gall personau gyda chyfrifoldebau dan y Gorchymyn sy'n rheoli risgiau tebyg ddisgwyl gweld agwedd gyson gan yr Awdurdodau o ran y cyngor a roddir; defnydd o bwerau gorfodi; penderfyniadau ar erlyn ai peidio, a'r ymateb i ddiwyddiadau a chwynion.

Mae gan yr Awdurdodau drefniadau i hyrwyddo cysondeb wrth ddefnyddio disgrisiwn, gan gynnwys trefniadau i gysylltu ag awdurdodau gorfodi eraill, a bydd yn ceisio bob amser wella trwy arolwg mewnol, archwiliad ac ystyried sylwadau a dderbynnir.

Os bydd angen cymryd camau gorfodi yn amgylchiadau'r achos, caiff ei seilio ar egwyddorion, disgwyliadau a methodoleg y [Model Rheoli Gorfodi](#) (EMM) a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), a ystyrir yn arfer orau genedlaethol.

2.4 Trylowder

Mae trylowder yn golygu helpu unigolion, busnesau ac ymgymeriadau eraill i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt a'r hyn y dylent ei ddisgwyl gan yr Awdurdodau. Mae hefyd yn golygu ei gwneud yn glir i fusnesau, ymgymeriadau eraill ac unigolion nid yn unig yr hyn sydd angen iddynt ei wneud, ond hefyd yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Mae hyn yn cynnwys gwahaniaethu rhwng gorfodi gofynion statudol a rhoi cyngor ewyllys da.

2.5 Atebolrwydd

Mae'r holl Reolyddion yn atebol i'r cyhoedd am y camau a gymerir ganddynt. Mae hyn yn golygu bod angen i awdurdodau gorfodi fod â pholisïau a safonau dan y rhain y gellir eu barnu, a mecanwaith effeithiol a hygyrch i ddelio â sylwadau a thrin cwynion.

- [Trefniadau Cwyno Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru](#)
- [Trefniadau Cwyno Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gogledd Cymru](#)
- [Trefniadau Cwyno Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru](#)

Mae Cod y Rheolyddion 2014 adran 2.5 yn nodi:

“Regulators should make available to those they regulate, clearly explained complaints procedures, allowing them to easily make a complaint about the conduct of the regulator.”

Ac yn adran 2.6:

“Regulators should have a range of mechanisms to enable and regularly invite, receive and take on board customer feedback, including, for example, through customer satisfaction surveys of those they regulate.”

2.6 Cymwynasgarwch

Mae'r Awdurdodau o'r farn mai gwell rhwystru'r clwy na'i wella ac mae eu rôl hwy felly yn golygu gweithio gyda busnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig eu maint, i gynghori a chynorthwyo gyda chydymffurfio. Byddwn yn darparu gwasanaeth cwrtais ac effeithiol a bydd ein staff yn rhoi eu henw. Byddwn yn darparu pwyntiau cyswllt a rhifau ffôn ar gyfer cyfathrebu pellach a byddwn yn annog busnesau i ofyn am gyngor/wybodaeth. Byddwn hefyd yn ymdrechu i gyd-gysylltu ein gwasanaethau yn effeithiol i leihau unrhyw orgyffwrdd ac oedi mewn amser diangen.



Mae Cod y Rheolyddion 2014 adran 5.1 yn nodi:

“Regulators should provide advice and guidance that is focused on assisting those they regulate to understand and meet their responsibilities. When providing advice and guidance, legal requirements should be distinguished from suggested good practice and the impact of the advice or guidance should be considered so that it does not impose unnecessary burdens in itself.”

3 Safonau Gwasanaeth

Mae safon gwasanaeth yn ymrwymiad cyhoeddus i lefel fesuradwy o berfformiad y gall cwsmeriaid ei disgwyl dan weithrediadau rheolaidd o ddydd i ddydd. Mae safonau gwasanaeth yn elfen bwysig o ragoriaeth rheoli; maent yn helpu esbonio disgwyliadau ar gyfer y rhai rydym yn eu rheoleiddio a gweithwyr yr Awdurdodau. Maent yn galluogi rheoli perfformiad, ac yn cynorthwyo gyda boddhad cwsmeriaid. Mae safonau gwasanaeth pob Awdurdod wedi eu cyhoeddi ar eu gwefannau allanol.

- [Safonau Gwasanaeth GTA Gogledd Cymru](#)
- [Safonau Gwasanaeth GTA Canolbarth a Gogledd Cymru](#)
- [Safonau Gwasanaeth GTA De Cymru](#)

Mae adran 6.1 Cod y Rheolyddion 2014 yn nodi:

“Regulators should publish a set of clear service standards, setting out what those they regulate should expect from them”.

4 Y Ddeddf Hawliau Dynol 1998

Mae'r Awdurdodau yn awdurdodau cyhoeddus i ddibenion y [Ddeddf Hawliau Dynol 1998](#). Rydym felly yn defnyddio egwyddorion y Confensiwn Ewropeaidd ar gyfer Amddiffyn Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol. Mae'r Polisi hwn a'r holl benderfyniadau gorfodi cysylltiedig yn cymryd i ystyriaeth ddarpariaethau'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Yn benodol, rhoddir sylw i'r hawl i dreial teg a'r hawl i barch i fywyd preifat a bywyd y teulu, y cartref a gohebiaeth.

5 Deddf Diogelu Data 1998

Lle mae angen i'r Awdurdod rannu gwybodaeth orfodi gydag asiantaethau eraill, byddwn yn dilyn darpariaethau'r [Ddeddf Diogelu Data 1998](#).

Mae Cod y Rheolyddion 2014 adran 4.2 yn nodi:

“When the law allows, regulators should agree secure mechanisms to share information with each other about businesses and other bodies they regulate, to help target resources and activities and minimise duplication.”

6 Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron

Wrth benderfynu a ddylid erlyn, bydd yr Awdurdodau yn ystyried darpariaethau'r [Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron](#) fel y'i cyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Mae'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yn ddogfen gyhoeddus sy'n pennu'r egwyddorion cyffredinol i'w dilyn pan gymerir penderfyniadau ynglŷn ag achosion erlyn. Mae'r Cod yn pennu dau brawf sydd angen eu bodloni, a elwir fel arfer yn 'Brawf Tystiolaethol' a'r 'Prawf Budd y Cyhoedd':



6.1 Prawf Tystiolaethol

“A oes digon o dystiolaeth yn erbyn y diffynnydd?” Wrth benderfynu os oes digon o dystiolaeth i erlyn, bydd yr Awdurdodau’n ystyried pa dystiolaeth sy’n ddibynadwy ac y gellir ei defnyddio mewn llys. Rhaid i ni fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i ddarparu “rhagolwg realistig o gael collfarn” yn erbyn pob troseddwr honedig.

6.2 Prawf Budd y Cyhoedd

“A yw er budd y cyhoedd i’r achos ddod i’r llys?” Bydd Awdurdodau yn cydbwysu ffactorau o blaid ac yn erbyn erlyn yn ofalus ac yn deg, gan ystyried pob achos ar ei haeddiant. Mae’r ffactorau budd y cyhoedd a gymerwn i ystyriaeth wedi eu manylu dan yr adran Camau Gorfodi sydd ar gael i’r Awdurdodau.

7 Y Ddeddf Rheoleiddio Gorfodi a Sanctiynau 2008

[Y Ddeddf Rheoleiddio Gorfodi a Sanctiynau 2008](#), fel y’i diwygiwyd, a sefydlodd y Cynllun Awdurdod Sylfaenol. Bydd Awdurdodau yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf pan fyddant yn ystyried cymryd camau gorfodi yn erbyn unrhyw fusnes neu gyfundrefn sydd ag Awdurdod Tân Sylfaenol, a bydd yn ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag Awdurdod Sylfaenol.

8 Cynnal Ymchwiliadau

Bydd holl ymchwiliadau yn cael eu gwneud dan y ddeddfwriaeth ganlynol ac yn unol ag unrhyw ganllawiau neu godau ymarfer cysylltiedig, fel y maent yn ymwneud â’r Awdurdod.

- [Cod y Rheolyddion 2014](#)
- [Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984](#)
- [Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996](#)
- [Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000](#)
- [Deddf Cyfiawnder Troseddol a’r Heddlu 2001](#)
- [Deddf Hawliau Dynol 1998](#)
- [Deddf Enillion Troseddau](#)
- [Cod Ymarfer Pwerau Mynediad](#)

Mae’r Deddfau hyn a’r canllawiau cysylltiedig yn rheoli sut caiff tystiolaeth ei chasglu a’i defnyddio ac mae’n rhoi amrediad o amddiffyniadau i ddinasyddion a diffynyddion posibl.

Bydd ein harolygwyr awdurdodedig hefyd yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth benodol dan yr hon y maent yn gweithredu, a chydag unrhyw ganllawiau neu godau ymarfer cysylltiedig.

9 Camau Gorfodi (Sydd ar gael i’r Awdurdodau mewn perthynas â Thoriadau Troseddol)



9.1 Cyngor, cyfarwyddyd a chymorth gyda chydymffurfio

Mae'r Awdurdodau yn defnyddio cyngor, cyfarwyddyd a chymorth fel ymateb cyntaf yn achos llawer o achosion o dorri deddfwriaeth a adnabyddir. Rhoddir cyngor, weithiau ar ffurf llythyr rhybudd, i gynorthwyo unigolion a busnesau i gywiro unrhyw doriad mor gyflym ac effeithiol ag y bo modd, gan osgoi'r angen am unrhyw gamau gorfodi pellach. Bydd llythyr rhybudd (a elwir weithiau yn 'Hysbysiad o Ddiffygion') yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud i gywiro'r tor-rheol a rhwystro hynny rhag digwydd eto. Os adnabyddir toriad tebyg yn y dyfodol, bydd y llythyr hwn yn berswadiol wrth ystyried y camau gorfodi mwyaf priodol i'w cymryd ar yr achlysur hwnnw. Ni ellir dyfynnu llythyr o'r fath yn y llys fel collfarn flaenorol ond gellir ei gyflwyno fel tystiolaeth.

Bydd yr Awdurdodau yn cydnabod, lle mae busnes wedi mynd i bartneriaeth gydag awdurdod sylfaenol, y bydd yr awdurdod sylfaenol yn rhoi cyngor a chymorth gyda chydymffurfio, a bydd yr Awdurdodau yn cymryd cyngor o'r fath i ystyriaeth wrth ystyried y camau gorfodi mwyaf priodol iddynt eu cymryd. Efallai y byddant yn trafod unrhyw angen am gyngor a chymorth gyda chydymffurfio gyda'r awdurdod sylfaenol.

Pan gymerir camau gorfodi mwy ffurfiol, megis rhybuddiad syml neu erlyniad, mae'r Awdurdodau yn cydnabod y bydd, mae'n debyg, angen parhaus am gyngor a chymorth cydymffurfio, i rwystro toriadau eraill.

9.2 Cynlluniau gweithredu a gytunir

Efallai y bydd yr Awdurdodau yn derbyn ymgymeriadau gwirfoddol ('Cynlluniau Gweithredu a Gytunir') y bydd unrhyw doriadau yn cael eu cywiro a/neu unrhyw ail-ddigwyddiad yn cael ei rwystro. Bydd yr Awdurdod yn ystyried methu ag anhrydeddu 'Cynlluniau Gweithredu a Gytunir' yn fater difrifol iawn ac mae camau gorfodi yn debygol o ddeillio.

9.3 Hysbysiadau statudol (cyfreithiol)

Mewn perthynas â thoriadau, mae gan yr Awdurdodau bwerau i gyflwyno hysbysiadau statudol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Hysbysiadau Gorfodi,
- Hysbysiadau Gwahardd,
- Hysbysiadau Newid.

Mae hysbysiadau yn rhwymedig yn gyfreithiol. Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad statudol yn drosedd dan [Erthygl 32](#) y Gorchymyn a bydd yr Awdurdodau yn ystyried erlyniad.

Bydd Hysbysiad Gorfodi yn nodi'n glir unrhyw gamau y mae'n rhaid eu cymryd a'r amserlen ar gyfer cymryd y camau hynny. Mae'n debygol o bennu bod unrhyw doriad yn cael ei gywiro a/neu ei rwystro rhag digwydd eto.

Gall Hysbysiad Gwahardd hefyd wahardd neu gyfyngu defnydd o safle lle mae'r Awdurdodau o'r farn bod y defnydd yn golygu, neu a fyddai'n golygu, risg difrifol.

Bydd Hysbysiadau Newidiadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r personau sy'n rheoli'r safle hysbysu'r Awdurdodau cyn gwneud newidiadau penodol. Caiff y manylion eu hesbonio yn yr hysbysiad.

Pan gyflwynir hysbysiad statudol, rhoddir esboniad o'r broses apelio i'r derbynydd.

Mae Cod y Rheolyddion 2014 adran 2.3 yn nodi:

“Regulators should provide an impartial and clearly explained route to appeal against a regulatory decision or a failure to act in accordance with this Code. Individual officers of the regulator who took the decision or



action against which the appeal is being made should not be involved in considering the appeal. This route to appeal should be publicised to those who are regulated.”

Efallai y bydd rhai hysbysiadau mewn perthynas â safleoedd yn cael eu doddi ynghlwm wrth y safle.

9.4 Cofrestr gyhoeddus o hysbysiadau

Yn unol â gofynion y [Ddeddf Gwybodaeth am yr Amgylchedd a Diogelwch 1988](#) bydd manylion hysbysiadau a wnaed ar gael mewn cofrestr gyhoeddus sydd ar gael ar wefan pob Gwasanaeth.

9.5 Rhybuddiad syml

Mae gan yr Awdurdodau y pŵer i gyflwyno rhybuddiad syml yn hytrach nag erlyn ar gyfer rhai troseddau llai difrifol, pan fo'r person yn cyfaddef i'r drosedd ac yn cytuno derbyn rhybuddiad syml. Os cynigir rhybuddiad syml a'i wrthod, bydd yr Awdurdodau yn ystyried erlyniad.

Defnyddir rhybuddiad syml yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref a chanllawiau perthnasol eraill.

9.6 Erlyn

Gall yr Awdurdodau erlyn mewn perthynas â thoriadau difrifol neu fynych, neu lle mae camau gorfodi eraill, megis cynlluniau gweithredu a gytunir neu hysbysiadau statudol wedi methu â sicrhau cydymffurfedd. Wrth benderfynu erlyn ai peidio, bydd yr Awdurdodau yn ystyried darpariaethau'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron fel y'i cyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

Ystyrir erlyn dim ond pan fo'r Awdurdodau yn fodlon bod ganddynt dystiolaeth ddigonol i roddi rhagolwg realistig o gael collfarn yn erbyn y diffynnydd/diffynyddion.

Cyn penderfynu bod erlyniad yn briodol, bydd yr Awdurdodau yn ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol yn ofalus ac yn ystyried meini prawf budd y cyhoedd a ddisgrifir yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron.

Bydd erlyniad llwyddiannus yn arwain at gofnod troseddol. Gall y llys bennu dirwy ac mewn perthynas â thoriadau arbennig o ddifrifol, dedfryd o garchar. Gall y llys orchymyn fforffedu a gwaredu nwyddau nad ydynt yn cydymffurfio a/neu atafaelu unrhyw enillion sydd wedi deillio o'r toriad. Gall erlyn hefyd arwain, dan rai amgylchiadau, at wahardd unigolion rhag gweithredu fel cyfarwyddwyr cwmni.

10 Dogfennau perthnasol

- [Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio \(Diogelwch Tân\) 2005](#)
- [Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2012 Ymlaen](#)
- [Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006](#)
- [Cod y Rheolyddion 2014](#)
- [Deddf Hawliau Dynol 1998](#)
- [Deddf Diogelu Data 1998](#)
- [Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron](#)
- [Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau 2008](#)
- [Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984](#)



- [Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol](#)
- [Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000](#)
- [Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001](#)
- [Deddf Hawliau Dynol 1998](#)
- [Deddf Gwybodaeth am yr Amgylchedd a Diogelwch 1998](#)
- [Deddf Adeiladu 1984](#)
- Canllawiau a chodau ymarfer cysylltiedig ar gyfer y cyfan uchod

11 Arolygu Polisi

Caiff y polisi hwn ei arolygu:

- 1) yn flynyddol, neu
- 2) ar ôl derbyn gwybodaeth newydd, neu
- 3) adeg gweithredu cytundebau newydd a all effeithio'r polisi